A40: Gwelliannau rhwng Llanddewi Felffre a Redstone Cross
Rhagfyr 2021

GRIFFITHS
civil engineering and construction

Cyflwyniad

Yn gynharach eleni, cafodd Griffiths ei benodi gan Lywodraeth Cymru yn Brif Gontractwr i gyflawni'r gwelliannau i'r A40 rhwng Llanddewi Felffre a Redstone Cross.
Sefydlwyd Griffiths yn 1968, ac mae bellach yn un o'r prif gontractwyr peirianneg sifil a rheilffyrdd sy'n gweithio ledled Cymru, Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr, gyda'n prif swyddfa wedi'i lleoli yn y Fenni.
Ar y cyd â Jacobs, cynllunwyr y prosiect a'r ymgynghorwyr amgylcheddol, mae tîm y prosiect 'nawr ar y safle ac yn edrych ymlaen yn fawr at adael gwaddol parhaus yng Ngorllewin Cymru.
Nod ein tîm prosiect-benodol yw cwrdd â chynifer o'r rhanddeiliaid a'r preswylwyr â phosibl yn yr ardal leol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf tra byddwn yn ymwneud â'r cynllun.

Cynnydd y Prosiect

Oddi ar ein newyddlen ddiwethaf ym mis Medi, rydym wedi bod yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu ein hamgaefa ar Fferm Parc-y-Delyn, ac rydym bellach wedi symud i mewn iddi.

Mae ffens dros dro wedi cael ei chodi ar hyd ffin gyfan y cynllun lle mae cyfyngiadau ecolegol yn caniatáu hynny. Rydym wedi bod yn cynnal arolygon o gyfleustodau tanddaearol ar y gerbytffordd bresennol gan ddefnyddio Radar Treiddio Daear. Mae hyn yn osgoi'r angen i gloddio nifer o dyllau yn y gerbytffordd bresennol i nodi safle gwasanaethau claddedig sy'n bodoli. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal arolygon ecolegol ac yn tynnu perthi lle mae'r cyfyngiadau amgylcheddol yn caniatáu hynny. At hynny, rydym wedi dechrau'r gwaith o ddargyfeirio cyfleustodau yn achos y llinellau trydan uwchben a fydd yn cael eu heffeithio gan aliniad newydd y briffordd.

I hyrwyddo diogelwch y cyhoedd teithiol a'n gweithlu, rydym yn bwriadu sefydlu terfyn cyflymder o 30 mya ar hyd cefnffordd bresennol yr A40 o'r dwyrain i Landdewi Felffre hyd at gylchfan Robeston Wathen. Bydd hwn yn cael ei weithredu ar 10 Ionawr 2022. Rydym wedi cynnal trafodaethau â Phartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd 'Go-Safe' mewn perthynas â gorfodi'r terfyn cyflymder dros dro hwn o 30 mya, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd teithiol yn cydymffurfio.

Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae tîm y prosiect yn ymgysylltu ag ysgolion, colegau a phrifysgolion i roi cipolwg i bobl ifanc ar y diwydiant adeiladu a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd o ran gyrfa y mae'n eu cynnig. Hyd yma, mae'r prosiect wedi croesawu tri hyfforddai lleol, ynghyd ag 11 o gyflogeion newydd i'r busnes. Byddwn yn cynnig nifer o gyfleoedd cyflogaeth eraill gydol yr amser, a byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau lleol i'w llenwi.

Cynhaliodd Griffiths ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr rhithwir ym mis Gorffennaf, gan ddenu 32 o gontractwyr lleol. O blith y contractwyr hyn mae chwech wedi bod yn ymwneud â phrisio ac ymholiadau hyd yma, ac mae ychydig ohonynt yn gweithio ar y cynllun ar hyn o bryd. Hwn oedd y digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr rhithwir cyntaf yn y busnes, a lleihawyd yr angen i deithio, gan felly leihau allyriadau carbon yn ogystal â darparu amgylchedd diogel i bawb fod yn bresennol. Cynhelir ail ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr yng ngwanwyn 2022, a fydd yn cael ei hysbyseb ar GwerthwchiGymru, yn ogystal ag yn lleol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Adam Bateman.

Ers dechrau ar y safle, rydym wedi cwrdd â nifer o grwpiau cymunedol, gan gynnwys Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre. Os hoffech drafod cyfleoedd i ymgysylltu, mae croeso i chi gysylltu. Mae tîm y prosiect yn awyddus i gefnogi achosion da gydol yr amser. Os ydych yn grŵp cymunedol neu'n elusen leol, cysylltwch drwy anfon neges e-bost i A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk i drafod.

I gyflwyno Griffiths a'r tîm, rydym am roi coed Nadolig i ysgolion lleol a grwpiau cymunedol fel arwydd o ewyllys da'r Nadolig mewn nwyddau.

Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr e-bost

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich sylwadau; cysylltwch trwy ein tudalen we community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cyhoeddus

0330 1071504 neu A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk

Cwrdd â'r Tîm – yr Uwch-dîm Rheoli

Andrew Davies – Rheolwr Prosiect a Richard Spooner – Rheolwr Adeiladu

Bydd ein Rheolwr Prosiect, Andrew (ar y dde), a'n Rheolwr Adeiladu, Richard (ar y chwith), yn arwain tîm y prosiect, sy'n cynnwys 30 o bobl, ynghyd â hyd at 100 o weithwyr ac isgontractwyr ar y safle trwy gydol cyfnod y cynllun. Gyda'i gilydd, maent wedi cyflawni gwerth tua £1 biliwn o brosiectau, ac mae ganddynt doreth o wybodaeth am lywio timau wrth iddynt ddylunio ac adeiladu prosiectau priffyrdd mawr, technegol gymhleth. Mae'r ddau yn hanu o Orllewin Cymru, ac maent yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned leol lle bo modd. "Mae'r ddau ohonom yn teimlo'n angerddol ynghylch adeiladu, ac yn hyrwyddo cyfathrebu, cynllunio, ymrwymiad a pherchnogaeth yn brif rinweddau i ni," meddai Andrew.

Cyswllt Cyhoeddus

Penodwyd Adam Bateman yn Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ac yn Rheolwr Rhanddeiliaid ar gyfer y prosiect. Adam yn sicrhau bod y rhanddeiliaid a'r rheiny y mae'r prosiect yn effeithio arnynt yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Mae'n lleol ac yn edrych ymlaen at weithio ar brosiect yn ei ardal leol ac ymgysylltu â chi yn ystod y cynllun.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/a40-llanddewi-velfrey-redstone-cross-improvements

Bydd gwefan cwmni Griffiths hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cwmni a'r prosiect https://community.alungriffiths.co.uk/

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynllun, mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk.

Oriau gwaith ein safle fydd 07:30-17:00; fodd bynnag, gallai'r amserau hyn gael eu newid. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfathrebu trwy'r newyddlen i'r preswylwyr a'r gymuned leol. Mae'r Tîm Cyswllt Cyhoeddus bob amser ar gael i ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gennych, ac yn croesawu unrhyw ymweliadau cynlluniedig â'r swyddfa, sy'n amgylchedd diogel rhag COVID.

Y Swyddog Cyswllt Cyhoeddus 0330 1071504

Diweddariadau ar y Traffig

Byddwn yn gorfodi terfyn cyflymder o 30 mya ar yr A40 presennol trwy gydol y prosiect, a hynny o Bengawse Hill i leoliad cylchfan Robeston Wathen o 10 Ionawr 2022 ymlaen.

Bydd yr holl wybodaeth am y traffig a'r holl ddiweddariadau ar gael yn https://traffig.cymru/

Y Cynllun

Prif ofynion adeiladu y prosiect yw:

- 2 gylchfan newydd a 2 gyffordd newydd
- 6.2 km o gerbytffordd newydd
- 2 drosbont newydd
- 18 o gwlfertau newydd a 3 estyniad i gwlfertau presennol
- 5.5 km o gyfleusterau defnydd a rennir ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth
- 9 pwll dŵr draenio cynaliadwy
- 14.5 km o system draenio priffyrdd a phibwaith cysylltiedig
- 16 km o ffensys ecolegol

Digwyddiadau yn y Dyfodol

Bydd Griffiths yn cynnal Arddangosfa Gyhoeddus ar Deithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd yng Ngwanwyn 2022.

Bydd y tîm adeiladu a'r tîm cyswllt cyhoeddus ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ynghylch y cynllun.

Bydd digwyddiadau yn y dyfodol yn cynnwys:

- Gwanwyn 2022, digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr i ymgysylltu â chontractwyr lleol
- Ymgysylltu ag ysgolion trwy weithio ar y cyd â Gyrfa Cymru
- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol i gyfrannu at achosion da
- Ymweliadau â safleoedd ysgolion

Hoffai tîm Prosiect Griffiths ddymuno Nadolig a Blwyddyn Newydd iach a llawen iawn i chi i gyd, ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn 2022.

A40 Llanddewi Velfrey to Redstone Cross Improvements December 2021

GRIFFITHS
civil engineering and construction

Introduction

Griffiths were appointed, as the Principal Contractor, by the Welsh Government to deliver the A40 Llanddewi Velfrey to Redstone Cross Improvements earlier this year.
Founded in 1968, Griffiths is one of the leading civil engineering and rail contractors working throughout Wales, the midlands and south-west England, with our main office located in Abergavenny.
Along with Jacobs, the project designers and environmental consultants, the project team are now on site and are very much looking forward to leaving a lasting legacy in West Wales.
Our project specific team aim to meet as many stakeholders and residents within the local area as possible, over the next few years whilst engaged with the scheme.

Project Progress

Since our last newsletter in September, we have been progressing with our compound construction at Parc-y-Delyn Farm and have since moved in.

The temporary boundary fence has been installed along the full length of the scheme where ecological constraints permit. We have been undertaking underground utility surveys on the existing carriageways with Ground Penetrating Radar. This avoids the need to excavate numerous holes in the existing carriageway to identify the position of existing buried services. We have also been undertaking ecological surveys and hedgerow removal where the environmental constraints permit. We have also started utility diversion works of the overhead electric lines that are going to be impacted by the new highway alignment.

To aid the safety of the travelling public and our workforce we intend to establish a temporary speed restriction of 30mph along the current A40 trunk road from east of Llanddewi Velfrey village to Robeston Wathen roundabout. This will be installed on the 10th January 2022. We have been in discussions with the 'Go-Safe' Road Safety Partnership with regards to the enforcement of this temporary 30mph speed restriction to ensure all the travelling public comply.

Community Engagement

The project team are engaging with schools, colleges and universities to give young people an insight into the construction industry and the vast range of career opportunities it offers. So far the project has welcomed three local trainees, and a further eleven new local employees into the business. We will have several other employment opportunities available throughout which we will engage with local organisations to source.

Griffiths ran a Virtual Meet the Buyer event in July attracting thirty-two local contractors. Of these contractors six have so far been involved in pricing and enquiries with a few currently working on the scheme. This was the first virtual Meet the Buyer event within the business which reduced the need for travel therefore reducing carbon emissions aswell as providing a safe environment for all to attend. A second Meet the Buyer event will take place in Spring 2022, and will be advertised on Sell2Wales as well as locally. For more information please contact Adam Bateman.

Since starting on site we have met with a number of community groups including the Llanddewi Velfrey Community Council. If you would like to discuss engagement opportunities please don't hesitate to get in touch. The project team are keen to support good causes throughout. If you are a local community group or charity please get in touch by emailing the A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk to discuss.

As an introduction to Griffiths and the team, we are donating Christmas Trees to local schools and community groups as an in-kind Christmas gesture.

Subscribe to our email newsletter.

We would love to hear your comments, please get in touch via our webpage community.alungriffiths.co.uk or contact our Public Liaison Officer on

0330 1071504 or A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk

Meet the Team – Senior Management Team

Andrew Davies - Project Manager & Richard Spooner – Construction Manager
Our Project Manager Andrew (right) and Construction Manager Richard (left) will be leading the 30 strong project team and up to 100 site workers and subcontractors throughout the scheme. Combined they have delivered approximately £1bn worth of projects, and have an expanse of knowledge driving teams in the design and construction of technically complex major highways projects. They are both from West Wales and are keen to give back to the local community wherever possible.
"We are both passionate about construction and promote communication, planning, commitment and ownership as our main attributes" states Andrew.

Public Liaison

Adam Bateman has been appointed as the projects Public Liaison Officer and Stakeholder Manager. Adam will ensure that stakeholders and those affected by the project are kept up to date with progress. He is local and is looking forward to working on a project in his local area and engaging with you over the duration of the scheme.

Latest information on the project will be available on the Welsh Government website www.gov.wales/a40-llanddewi-velfrey-redstone-cross-improvements

The Griffiths company website will also contain company and project information https://community.alungriffiths.co.uk/

Should you have any enquiries regarding the scheme please don't hesitate to contact us using the A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk email address.

Our site working hours will be 07:30 – 17:00, however these may be subject to change. Any changes will be communicated via newsletter to local residents and community. The Public Liaison Team are always on-hand to answer any queries you may have and welcome any planned visits to the covid safe office environment.

Public Liaison Officer: 0330 1071504

Traffic Updates

We will be imposing a 30mph speed limit on the existing A40 across the project from Pengawse Hill to the location of Robeston Wathen roundabout on the 10th January 2022.

All traffic information and updates will be available on Https://traffic.wales

The Scheme

The main construction requirements of the project are:

- 2 new roundabouts and 2 new junctions
- 6.2km of new carriageway
- 2 new over bridges
- 18 new culverts and 3 extensions to existing culverts
- 5.5km of shared use facilities for walking, cycling and horse riding
- 9 sustainable drainage ponds
- 14.5km of highway drainage and associated pipework
- 16km of ecological fencing

Future Events

Griffiths will be a hosting an Active Travel and De-trunking Public Exhibition Event in Spring 2022.

The construction team and public liaison team will be available to answer any questions you may have around the scheme.

Future events will include:

- Spring 2022 Meet the Buyer event to engage with local contractors
- School engagement working collaboratively with Careers Wales
- Engaging with local community groups contributing to good causes
- School site visits

The Griffiths Project team would like to wish you all a very happy and healthy Christmas and New Year and look forward to seeing you in 2022.